

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 29^{AIN} MEHEFIN 2022
YN NGHANOLFAN GWYTHERIN

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR).

1.2 Presennol: Diane Roberts (DR), Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW), Mark Davies (MD), Jên Roberts (JR) & Austin Roberts (AR)

1.3 Ymddiheuriadau: Gwydion Jones (GJ) & Myrddin Davies (MGD)

Croesawodd CR Austin Roberts fel cynghorydd sir newydd. Diolchodd CR i bawb ac i EW am gadeirio'r ddau gyfarfodd diwethaf.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

EW – 8.1

3 COFNODION I'W GWIRO 25^{AIN} MAI 2022

AV yn datgan diddordeb tra roedd y cofnodion yn cael eu trafod.

Cynnigwyd yn gywir gan EW yn dilyn cywiriadau ac eilwyd gan MD.

4 MATERION YN CODI

REW yn gofyn os oedd diweddariad efo'r tap dŵr yn y fynwent. CR yn adrodd fod y tap wedi cael ei newid ond nad oedd dŵr yn dod trwyddo. CR am ddilyn y mater i fyny eto.

AV – dweud fod EW wedi derbyn gohebiaeth cyn y cyfarfod diwethaf ond nad oedd trafodaeth wedi digwydd.

EW yn trafod fod llawer o'i hamser yn mynd i ymateb i ebyst y Cyngor. Nifer yr ebyst wedi gostwng ers y cyfarfod diwethaf. CR yn dweud os yw'r mater yn fwrn iddi ddweud a buasai cynghorwyr yn helpu.

REW yn nodi er gwybodaeth fod y car ger Plas Matw yn dal yno. EW yn codi fod yr heddlu yn ymwybodol o'r mater. AR yn cynnig cysylltu efo adran rheoleiddio'r Cyngor.

REW yn gofyn os oedd diweddariad efo'r yswiriant. EW yn cadarnhau fod yr yswiriant wedi ei adnewyddu ers y cyfarfod diwethaf. CR yn gofyn os oedd y cwmni eisiau rhestr o'r asedau, EW yn cadarnhau fod asedau wedi eu hychwanegu yn ddiweddar.

AV yn gofyn os oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn am arwyddion solar.

5 CAIS CYNLLUNIO

5.1 0/49731 – DR yn adrodd fod y cais wedi ei wrthod heddiw oherwydd fod y cais o fewn 400m o adeilad gwarchodedig. EW yn teimlo y dylasai'r cais gael ei gymeradwyo oherwydd fod y pwrpas i wneud gwellianau i'r fferm ac yn cynnig ymateb i'r cais i ddweud fod y Cyngor yn gefnogol, pawb yn gytun. AR yn cynnig mynd i weld Elwy Williams oherwydd ei fod ar pwyllgor cynllunio'r Cyngor Sir.

6 MATERION CYNGOR

6.1 Yswiriant wedi ei adnewyddu fel uchod.

6.2 CR wedi cael neges gan Iwan Williams yn dweud fod y tŷ ym Mhandy Tudur yn mynd ar y farchnad. Neges yn pwysleisio fod amodau lleol llym ar gyfer y prynwr.

6.3 Rhestr wedi ei drafod yn ystod y cyfarfod blyneddol 18^{fed} Mai 2022. Rhestr i'w atodi i'r cofnodion.

6.4 CR yn atgoffa fod cwrs côd ymddygiad ar zoom ar 4/5 Gorffennaf 2022.

6.5 EW yn adrodd nad oes gohebiaeth pellach wedi ei dderbyn am y coedlannau cymunedol yn dilyn yr ebost diweddar. Darren Millar wedi gyrru ebost hefyd yn ceisio atal cwmnïau i brynu tir â plannu coed ar dir ffrwythlon amaethyddol.

6.6 CR yn cadarnhau na un cynghorydd sydd angen ei gyf-ethol oherwydd fod JR wedi ymuno â'r Cyngor Cymuned. CR wedi rhoi hysbysebion i fyny cyn iddo fynd ar ei wyliau yn ddiweddar. EW yn adrodd fod MGD efo rhywun mewn golwg, gofyn iddo am ddiwedddariad ynglyn â hyn.

6.7 Diolchodd CR i AV, REW & MD am fynd i'r pedair mynwent i baratoi asesiad risg yn ddiweddar. EW yn awgrymu galw'r ddogfen yn adroddiad risg. REW yn cynnig gweithredu ar yr adroddiad fel bo'r angen yn codi.

Mynwent Llangernyw: AV yn adrodd fod y canghenau oedd yn beryglus ym mynwent Llangernyw wedi cael eu torri gan REW a diolchwyd iddo am wneud hynny.

AV yn cynnig fod angen paentio'r canllaw ym mynwent Llangernyw. MD yn cynnig paentio'r canllaw ei hun, pawb yn gytun.

Glaswellt yn gor-dyfu yn y fynwent, JR yn cynnig cael rhoi hadau blodau gwyllt yno ar gyfer y flwyddyn nesaf. I'w drafod ym mis Chwefror 2023.

CR am osod yr arwyddion dim cŵn. CR yn gofyn am yr arwyddion gafodd eu gosod yn Gwytherin, REW yn cadarnhau nad oes golwg ohonynt.

DR wedi cael cais i roi mainc yn y fynwent mewn safle nad oes angen cerdded dros y glaswellt i fynd ati, ac yn cynnig talu amdani a'r costau ynglwm a'i gosod. REW yn adrodd fod trafodaeth wedi bod ynglyn â hyn a wedi dod o hyd i safle. Pawb yn gytun i DR fynd yn ôl at y person ac adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf. REW hefyd yn codi fod angen gosod rheol fod angen i'r person sydd yn prynu a gosod y fainc edrych ar ôl y fainc yn y dyfodol, ac unrhyw feinciau eraill newydd.

Canghenau coeden fawr wedi dod i lawr, angen sylw cyn y gaeaf. Angen torri'r goeden gyfan i lawr. AV yn gofyn os oes angen caniatad i dorri'r goeden. REW yn teimlo fod angen cael rhywun proffesiynol i ymgymryd â'r gwaith. Trafodaeth am y rheolau cynllunio ac os oes perygl i'r cyhoedd o ran iechyd a diogelwch byddai angen torri'n syth. CR am gysylltu efo Rhys Jones ynglyn â hyn. Cwt pren angen ei ddymchwel a'i glirio. Gofyn wrth Kevin Roberts i edrych ar y gwaith yma.

Mynwent Garnedd: dwy garreg wedi holli, dangosodd MD luniau ohonynt i'r Cynghorwyr.

Mynwent Eglwys Gwytherin: trafodaeth am gerrig wedi torri ac yn finiog, REW & MD yn teimlo eu bod yn beryglus felly angen eu tynnu oddi yno.

MD yn codi fod angen torri'r clawdd hefyd. Pawb yn gytun i ofyn i Kevin Roberts am bris i wneud y gwaith yma yn y fynwent yng Ngwytherin.

Cododd hefyd laswellt wedi tyfu'n wyllt o amgylch mainc yn Gwytherin, hwn wedi ei dorri bellach.

Mynwent Seilo Gwytherin: cist wedi torri angen sylw brys. Cerrig wedi gwyro, nid yw rhain yn beryglus. Gofyn wrth Kevin Roberts am bris i wneud y gwaith yma hefyd, REW yn cynnig ei gyfarfod i ddangos y gwaith.

Gofynnodd MD os oedd y safle bws yng Ngwytherin ar yr yswiriant, cadarnhaodd EW nad oedd hwn ar yr yswiriant.

6.8 Gwybodaeth wedi dod i law erbyn y cyfarfod diwethaf gan y Cyngor Sir ynglyn a'r arwyddion fflachio. Adroddodd AR fuasai costau gosod yr arwyddion yn gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned. AR heb gael gwybodaeth am arwyddion solar. AR yn cynnig mynd yn ôl at y Cyngor Sir i ofyn am fanylion cwmnïau i wneud ymholiadau pellach. Angen caniatad adran briffyrdd y Cyngor Sir cyn eu gosod. JR yn codi fod 30mya yn mynd i 20mya yn 2023. DR wedi archebu gwn cyflymder.

DR yn codi fod angen codi'r mater o or-yrru efo tractorau drwy'r pentref. Cododd AR fod angen i'r Cyngor Sir ddod allan i weld y lleoliadau i asesu os ydynt yn addas.

6.9 Trafodwyd y pris am gasglu'r glaswellt. I'w drafod eto Chwefror/Mawrth 2023. Gofynnodd DR os fuasai'r Cyngor Sir yn torri'r glaswellt a'r Cyngor Cymuned yn eu talu nhw. Adroddodd AR ei fod wedi derbyn cwynion yn Eglwysbach nad yw'r Cyngor Sir yn casglu'r glaswellt chwaith. Atgoffodd REW fod y Cyngor Cymuned yn rhoi tender allan bob blwyddyn. AR yn cynnig gofyn wrth y rhai sydd yn torri mynwentydd Eglwysbach os y byddant a ddiddordeb ymgymryd â'r gwaith ar ran y Cyngor Cymuned.

6.10 EW yn adrodd nad yw hi, GJ & MGD wedi cyfarfod i drafod eto. Gofynnodd CR os y buasai clerc Eglwysbach a diddordeb. AR am ofyn wrth y clerc, pawb yn gytun iddo wneud hyn.

6.11 EW wedi ymgymryd â'r gwaith o gwblhau'r adroddiad blynyddol. DR a'r cyfrifydd wedi helpu efo'r gwaith. CR & EW wedi arwyddo'r adroddiad blynyddol o flaen y cynghorwyr. EW am ofalu cyflwyno'r adroddiad yn electroneg ac am yrru copi yn y post.

6.12 Adroddodd DR fod cyfarfod diweddaraf Un Llais wedi trafod ceisiadau cynllunio petai anghydfod. Cynghorau angen cael cynllun hyffordiant mewn lle erbyn Tachwedd 2023. Nododd EW fod angen i'r cyrsiau gael eu hysbysu o flaen llaw. Angen paratoi adroddiad ariannol blynyddol yn cynnwys manylion sydd heb gael eu cyhoeddi gan Llywodraeth Cymru eto.

Cododd DR y broblem gor-yrru a fod angen cysylltu efo Go-Safe ynglyn â hyn. Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn siarad ar Zoom dydd Mercher wythnos nesaf.

7 MATERION ARIANNOL

7.1 Dim wedi dod i law.

8 GOHEBIAETH

8.1 EW yn gadael y cyfarfod. Ebost gan Shared Rural Network yn hysbysu eu bod yn bwriadu gosod polyn ar gyfer cyflenwad 4G yng Ngwytherin, bydd angen i'r mater fynd drwy'r adran gynllunio.

8.2 EW yn ail-ymuno â'r cyfarfod. CR wedi gyrru ebost ynglyn â Canllawiau Statudol Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau. Dim sylw.

9 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR

AR yn adrodd fod y twll yn y ffordd gen Hendre Fawr wedi ei drwsio, mwy o waith trwsio am gael ei wneud dros y 3 mis nesaf.

Wedi cael cwyn nad yw'r gwaith ar y bont ger y Ficerdy wedi ei orffen. Adroddodd AR fod cais pellach am gael ei wneud y Llywodraeth Cymru i orffen y gwaith.

Tŷ Mawr Gell – problem wedi bod ers tro efo parcio. Wedi cael cyfarfod efo'r adran briffyrdd, ffens yn mynd i fyny unwaith fydd cais cynllunio ar gyfer maes parcio wedi mynd trwadd.

Wedi cyfarfod Mrs Green, prifathrawes Bro Cernyw i gyflwyno ei hun. Roedd AR yn sylwi ar wobrau o'r Eisteddfod yr Urdd ac yn llongyfarch yr ysgol ar eu llwyddiant.

Wedi bod efo DR yn gweld y broblem parcio gerllaw yr ysgol. AR yn cynnig, os fydd y Cyngor Cymuned yn mynd ymlaen efo'r arwyddion fflachio, y buasai'n gofyn wrth Dylan Jones o Gyngor Conwy os y byddai'n dod allan i asesu'r sefyllfa.

AR wedi cadw ei addewid ers cyn yr etholiad, wedi bod yn y bore coffi yn yr Eglwys yn Llangernyw ddwywaith ac wedi cyfarfod a'r ficer ac aelodau sydd yn mynychu. Roedd AR wedi cynnig fod yr eglwys yn hysbsu'r boreau ac yn hapus i fynychu'r sesiynau.

Adroddodd AR fod rhestr ceisiadau cynllunio a materion sydd heb gael caniatad yn dod i law yn wythnosol. Mae'n debyg fod holiday let wedi ei sefydlu yn Wern Bach, Llangernyw heb ganiatad cynllunio. Angen iddynt rhoi cais ôl-weithredol i mewn.

Diolchodd EW i AR am wneud popeth yr oedd wedi ei addo wneud yng nghyfarfod 18^{fed} Mai. Cydnabyddodd AV fod y criw sydd yn mynd i'r boreau coffi yn falch iawn fod AR yn mynychu.

Dim cwestiynau gan y Cyngorwyr i AR.

10 BILIAU

10.1 Enlli - £346.57, cytunwyd i dalu.

10.2 Dei Evans – torri glaswellt £450, cytunwyd i dalu.

10.3 Canolfan Gymuned Bro Cernyw, llogi £47. Wedi ei dalu'n barod.

10.4 Cyfieithu Cymunedol am gyfarfod 25^{ain} Mai - £150, cytunwyd i dalu. Ategwyd fod canmol am y gwasanaeth.

11 MATERION LLEOL

REW yn nodi fod y dafarn yn agor yn Gwytherin bob penwythnos a nos Fercher. Dim ond diod ar hyn o bryd ond y bwriad yw gweini bwyd yn y dyfodol.

Wedi trafod codi prisiau ar gyfer claddu yn y pwyllgor mynwentydd, REW am adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf i'w drafod.

REW yn codi ei fod yn draddodiad ers blynnyddoedd i dynnu llun o'r Cyngor Cymuned, pawb yn gytun fod angen gwneud hyn.

DR wedi sôn am sedd y fynwent uchod. Wedi cael cais am dŷ bach yn y parc, y Cyngor Sir sydd yn berchen y parc. Arhosfan bws yn Pentre, Llangernyw mewn cyflwr gwael.

Wedi cael cwynion fod defaid yn dianc i Fedwen Arian. Ategodd JR fod llawer o gwynion am y defaid. CR am gysylltu efo'r perchennog.

Adroddodd DR fod y palmant wedi ei sgubo ar y ffordd ger Fedwen Arian.

AV angen torri gor-dyfiant o gwmpas arwyddion ffyrdd. Am ddefnyddio Report It i hysbsu'r Cyngor Sir.

Polion yr arwyddion ffyrdd angen paent, am hysbysu'r Cyngor Sir am hyn hefyd drwy Report It.

JR wedi cael cwyn fod llwybr troed o Gors ar draws at Bont Faen wedi cau, adroddodd CR fod y llwybr wedi cau oherwydd llifogydd ers tro.

Non Davies wedi anfon dau ebost i'r Cyngor yn diolch i EW am gadeirio ac i'r cyfieithydd am ei gwaith yn ystod cyfarfod 25^{ain} Mai 2022.

12 CYFARFOD NESAF

27^{ain} Gorffennaf 2022 ym Mhandy Tudur

Cyfarfod yn dod i ben 9:50pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan